# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI
A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 42. RHIF 2 GORFFENNAF 2020 50c


# LLUNIAU ARWYDDOCAOL O GYMRU FY NGWLAD



*Coleg Prifysgol Aberystwyth, coleg cyntaf ym Mhrifysgol Cymru*



***Cartref y cenhadwr cyntyaf a aeth allan i'r India o Lerpwl yn 1840, Thomas Jones. Dyma Felin Llifior ger pentref Berriw yn Sir Drefaldwyn. Comisiynais y diweddar E. Emrys Jones, Bae Colwyn i dynnu'r llun ac fe wnaeth hynny. Dyma gyfle i'w weld***



***Cymry Lerpwl ugain mlynedd yn ôl (o'r chwith i'r dde) y diweddar Emrys Owen, Devida Broadbent, Mona Bowen, John P. Lyons, Nan Hughes Parry a'r diweddar Marian Lyons ac Olwen Jones***



***Yr Hen Stesion yn y Trallwng, Sir Drefaldwyn. Llun arall y comisiynwyd E. Emrys Jones i'w dynnu***

Golygyddol

# *Disgwyl pethau gwell i ddyfod – gan D. Ben Rees*

Rydym yng nghanol storom fawr a chwythodd o Seina i bob rhan o'r byd ac yr ydym mor ddiymadferth. Mae popeth yn fregus o'm hamgylch, ein bywydau, y ddarpariaeth ar ein cyfer, a'r angerdd o ddod o hyd i feddyginiaeth. Rwy'n deall fod hi'n bellach yn ras i chwilio am fodd i wella'r feirws sydd yn difa popeth o'i flaen. Mae mor llechwraidd ac anhysbys. Ni allwn ei leoli, ond fe wyddom ei bod hi'n hawdd iawn gael ein taro mor ddi-rybudd ganddo.

Rhoddodd y *Daily Telegraph* newydd da y dydd o'r blaen fod Prifysgol Rhydychen yn datblygu chwystrelliad sydd yn medru amddiffyn muncïod *macaque* oedd wedi cael ei heintio gyda Sars-colv-2 o niwmonia. Dywed Gweinidog y Gwasanaeth Iechyd y bydd y *vaccine* yn barod i hanner y boblogaeth, 30 miliwn erbyn mis Medi. Pwy fydd yn ei gael? Y bobl angenrheidiol mewn cymdeithas. Felly meddygon, nyrsus, gweithwyr eraill yr ysbytai, gofalwyr yr henoed, dreifwyr lorïau, gweithwyr y ffyrdd a'r archfarchnadoedd, athrawon, gwleidyddion o bob lliw a llun, ffermwyr a cynhyrchwyr bwyd. Oes rhywrai eraill? Bydd yn rhaid i'r gweddill gael ychydig mwy o amynedd oherwydd mae'n sefyll i reswm, ei bod hi'n risg aruthrol i fynychu oedfaon a chymdeithasau cyn i'r llywodraeth ddod o hyd i frechiad, dabled, ar ein cyfer ni unigolion.

Clywsom hefyd fod y ffyrm fawr *Moderna* o'r Unol Daleithiau a'r cynhyrchydd sydd ganddynt wedi gwneud profion dynol eisioes a fod y rhagolygon yn ddigon obeithiol. Nid yw Seina heb obaith, dealler fod *Sinovac Biotech* wedi datblygu modd i wella anifeiliaid a heintiwyd. Ond ar ôl dweud hyn i gyd, os ydych fel fi, mae'n anodd gweld y feddyginiaeth yn ein plith cyn Pasg 2021, ac felly am weddill 2020 bydd yn rhaid troedio'n hynod ofalus. Golyga hyn fod pawb sydd dros oedran yr addewid yn gorfod llechu yn eu cartrefi. Oherwydd yn ôl y wasg ni chafodd y mwncïod a heintiwyd yn y labordai ym Mhrifysgol Rhydychen ddim gwared o'r haint yn llwyr o'i gwythiennau. Felly gall y feddyginiaeth pan y daw roddi hyder i'r person a gaiff y feddyginiaeth ei fod yn ddiogel fel unigolyn. Er hynny mi all ef hyd yn oed wedyn heintio eraill gyda'r feirws.

Mae'n bum mis ers pan y clywsom ni y sibrydion gyntaf fod feirws newydd wedi ymddangos yn Seina. Nid oedd neb ohonom yn poeni dim, y pryd hynny, a hyd y deallwn, yr oedd y gwleidyddion yn rhy brysur yn ein darbwyllo i bleidleisio yn yr Ethoiliad Cyffredinol. Hyd heddiw yr ydym yn ansicr iawn am y feirws ac yn anghytuno ar sut y datblygodd y feirws ar ei hynt. Ond un peth a wyddom yw fod seiliau economaidd ein cymdeithas wedi ei sigo i'w seiliau. Oni bai fod y Llywodraeth wedi gwneud rhywbeth na ellid byth ei amgyffred sef rhannu arian, byddai nifer ein pobl heb waith wedi cynyddu yn aruthrol. Meddylier am y sefyllfa yng ngwlad fawr yr Amerig? Ond yr ydym ni ym Mhrydain wedi bod yn filain eisioes tuag at nifer o wledydd tlota'r byd sydd yn cyflenwi ein siopau dillad gyda deunydd sydd yn cael ei werthu am brisiau isel.

Ym mis Mawrth aeth ein cwmniau mawr ati i ganslo yr archebion mewn dillad gyda gwledydd fel Bangladesh. Ar un adeg roedd ein cenhadon yn gwasanaethu rhan o'r wlad honno, sef Sylet a Cachar. Roedd y rhannau hynny yr adeg honno yn rhan o India ond bellach yn rhan o wlad Bangladesh. Golygodd y canslo fod miloedd ar filoedd o wragedd, yn fwyaf arbennig, oedd yn paratoi dillad dynion a merched a phlant heb foddion i gynnal eu teuluoedd. Nid oes gennym ni yn Sir Gaerhirfryn ffatrioedd cotwm bellach, daw ein dillad o'r Dwyrain am ein bod yn cael y cyfan mor rhad.

Mawr obeithiaf y daw dyddiau gwell ar ôl gorchfyga'r feirws pan y byddwn yn talu cyflogau teg i bawb sy'n cynhyrchu ar ein cyder ni yn y Gorllewin, a'n bod ninnau yn y wlad hon yn talu cyflogau gwell i'r rhai hynny sy'n gweithio a gofalu am y claf a'r anghenus. Dyma'r trydydd golygyddol ar coronfeirws i mi ei lunio. Mae'n sicr y bydd angen aml un eto cyn y daw haul ar fryn! Cadwch yn ddiogel.




# CORNEL Y TRYSORYDD

## GORFFENNAF 2020



***Dyma restr sydd yn dangos haelioni eithriadol ein ddarllenwyr tuag at gynnal Yr Angor, Papur Bro Glannau Mersi a Manceinion. Mae y Golygydd a'r Pwyllgor Gwaith yn ddiolchgar ac yn gwerthfawrogi cefnogaeth mor ardderchog gan bawb sydd wedi cyfrannu trwy gydol y flwyddyn hon a cynt.***

| | |
|---|---|
| Mr a Mrs Gareth Hughes, Oxton | £30.00 |
| Mrs Sian Spink, Newton Willows | £20.00 |
| Mr Cerys Gruffudd, Penrhyn Coch | £11.00 |
| Parch a Mrs R. E. Hughes, Nefyn | £25.00 |
| Mr a Mrs Alun V. Jones, Childwall | £20.00 |
| Mr Robin ac Eleri Gwyndaf, Caerdydd | £30.00 |
| Mrs Morfydd Roberts, Abergele | £20.00 |
| Miss Mary Roberts, Benllech | £11.00 |
| Mrs Gwen Haynes, Wavertree | £50.00 |
| Mrs Mary Evans, Caernarfon | £20.00 |
| Miss Meirwen Hughes, Rhosmeirch | £50.00 |
| Mr Arwel Evans, Irby | £61.00 |
| Mr Alun Owen, Burscough | £41.00 |
| Ms Ann Lees, Cressington | £25.00 |
| Mr John Thomas, Allerton | £50.00 |
| Mrs Elizabeth Owen, Halewood | £20.00 |
| Mrs Mary C. Evans, Nefyn | £15.00 |
| Mr a Mrs Evie M. Jones, Dyffryn Ardudwy | £20.00 |
| Mrs Brenda Pritchard, Warrington | £30.00 |
| Mr R. Ifor Griffith, Childwall | £100.00 |
| Mrs Sioned Kenyon, Childwall | £20.00 |
| Mrs Enfys Hughes, Brynteg | £11.00 |
| Mr Eryl Wynne Jones, Woolton | £50.00 |
| **Cyfanswm** | **£730.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*YSGRIF GOFFA*

# Mrs. C. LOIS MURPHY

## *Stockport (1922-2020)*

O'i geni ym 1922 hyd at ei phriodas ym 1946 bu Lois yn byw yn Llansamlet ger Abertawe. Aeth gyntaf i ysgol y pentref, yna i Ysgol Ramadeg yn Abertawe gan orffen ei haddysg yng ngholeg hyfforddi athrawon cyn dychwelyd i'r ysgol yn Llansamlet i ddechrau ar ei gyrfa fel athrawes. Byddai'r teulu yn mynychu capel Tabor deirgwaith ar y Sul ac yr oedd bywyd cymdeithasol y pentre yn brysur hefo dramau ac eisteddfod a cherddoriaeth. Yn ei harddegau yng nghyfnod yr Ail Ryfel Byd, yr oedd Lois yn gyfarwydd â bywyd cyfyng yr adeg honno gyda'r bomio, '*rationing*' a'r '*clothing coupons*'. Dyma'r amser iddi gyfarfod ag Ossie Murphy ac fe briodwyd y ddau y flwyddyn wedi i'r rhyfel ddod i ben.

Gyda dau o blant, ym 1954 symudodd y teulu i fyw i Stockport ac yr oedd Lois, fel y dywed ei mab Peter, ar goll yn llwyr. Ond, yn mynnu dal at ei Chymreictod, fe chwiliodd Lois am gapel Cymraeg a chael hyd i gapel Wellington Street yn Stockport. Trafaeliai yno ar y bws ac wedyn cerdded i ddau wasanaeth ar y Sul. O'r dechrau bu yn weithgar gyda'r plant – ac yr oedd nifer dda o blant y pryd hynny – a Lois fyddai yn teithio i gapeli eraill yr Henadurieth (Manchester) i gynnal yr arholiadau llafar ac ysgrifenedig.

Cafodd plentyn arall ei geni – Janet – ac wedi iddi gyrraedd oed i ddechrau mynd i'r ysgol teimlodd Lois yr awydd i fynd yn ôl i'r dosbarth fel athrawes unwaith eto. Cafodd swydd yn ysgol gyfun Peel Moat ac yno y bu nes iddi ymddeol yn yr wythdegau. 'Roedd yn athrawes weithgar ac fel '*Careers Advisor*' rhoddodd lawer o gymorth i'w disgyblion i ddewis llwybr eu dyfodol. 'Roedd y gwaith wrth fodd ei chalon ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Yr oedd popeth a wnai Lois o safon a chyda graen arno.

Felly hefyd ei chyfraniad i'r capeli Cymraeg yn y cylch. Wedi cau capel Stockport, daeth yn aelod yn Oaker Avenue pan unwyd y ddau gapel ym 1974 ac etholwyd hi yn Flaenor ym 1976. Byddai'n selog i gyfarfodydd y capel a'r Henaduriaeth er fod teithio yn anodd. Nid oedd yn gyrru car yn y dyddiau hynny er ei bod wedi cael gwersi o dro i dro - newid gêr oedd y broblem! Byddai Ossie yn dod â hi ac yn ei chludo adref ond wedi colli ei chymar (Gorffennaf 1987) prynodd gar awtomatig a ffwrdd a hi. Dyna arwydd o'r math o berson yr oedd!

Cymerodd drosodd fel Ysgrifennydd Oaker Avenue a bu yn y swydd honno o 1979 hyd at 2012. Dyma ddyfyniadau o ddau ben y cyfnod yma yn ei bywyd sydd yn dweud cyfrolau amdani:

"*Eisoes gwelsom ei medr a'i thrylwyredd, ac nid oes amheuaeth nad yw buddiannau'r Eglwys yn ddiogel yn ei gofal*" – Parch H.Gwynfa Roberts yn Adroddiad yr Eglwys, 1979.

"*… ar ôl 33 mlynedd yn y swydd, gwaith a fwynhaodd a'i gyfrif yn fraint o'i gyflawni. Mae'r cofnodion a'r adroddiadau o'i heiddo yn werth eu gweld o ran eu cynnwys a'i llawysgrif berffaith*" – Mrs Anne S Hunt, Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol, 2012.

Bu'n Ysgrifennydd yr Henaduriaeth (Manchester) yn y cyfnod pan nad oedd gennym weinidog, ac yn gorfod delio a'r Gymdeithasfa a Chaerdydd mewn materion digon dyrys o dro i dro. Mae ei chofnodion o'r adegau hynny yn fanwl ac yn glir. Yr oedd bob amser yn gofalu bod ein gweithgareddau yn gyfundebol.

'Roedd yn flaenllaw ym mywyd



ysbrydol a chymdeithasol yr eglwys a hyd at y cyfnod olaf o'i bywyd, yn deyrngar i weithgareddau'r Cyfundeb ac i'r gweinidogion. Cofiwn iddi fynd yn aml iawn i Gymru i gyfarfodydd yr Henaduriaeth a'i chwmni yn siriol a chraff. 'Roedd ei sgwrs a'i sylwadau yn bwrpasol ac yn ffraeth, ei chyfeillgarwch at ei ffrindiau yn yr Henaduriaeth yn ddiffuant – ei negeseuon cynnes o gydymdeimlad yn dystion i hynny. Yn lleol hefyd, roedd Lois yn barod i gymryd rhan mewn gwasanaeth ac i sefyll a rhoi ei barn yng nghanol y bregeth os oedd raid - fel arfer yn werthfawrogol. Yn ein dathliadau Gŵyl Ddewi, yr Eisteddfod, y Gymanfa Ganu ac ar Bwyllgor '*Yr Angor*'– yr oedd Lois bob amser â rhywbeth i'w gyfrannu. Yr oedd yn actores ardderchog ac fe gawsom oriau o ddiddanwch yn ymarfer ar gyfer llwyfanu dramau ysgafn yn Oaker Avenue yn flynyddol. Dyddiau da a erys yn y côf am byth.

Mwynhaodd Lois ei hymddeoliad yn fawr, yn trafaelio dramor gyda Ossie, ei gŵr. Yn hedfan am y tro cyntaf, aeth i Efrog Newydd ar y *Concorde* a dychwelyd ar y QE2! Bu'r ddau ohonynt draw i Bali a Hong Kong ac i nifer o lefydd eraill. Meddai Lois gydag acen hyfryd y de lle y'i magwyd: "*'Rwyf wedi bod ar draws y byd o'r gorllewin i'r dwyrain*". Oedd, yr oedd Lois yn llawn bywyd a brwdfrydedd ac yn byw bywyd i'w lawnder.

Dros dreigliad y blynyddoedd diwethaf, fe ddirywiodd ei hiechyd a gorfu iddi fynd i gartref gofal. Ar ddydd Sul, Mai 24ain, daeth yr alwad i'w rhan a 'daeth i ben deithio byd'. Fe welwn ei cholli'n fawr ond mae'r atgofion sydd gennym amdani yn llu ac yn felys ac yn sicr:

*'Adwy wag edy o'i hôl'.*

*CEE, EE, ASH, MCS*

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Awst/Medi 2020** erbyn bore Mercher, 1 Gorffennaf 2020 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Rhifyn Hydref 2020** – erbyn bore Mawrth, 1 Medi, 2020 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd bore Mercher, 1 Medi.
- **Rhifyn Tachwedd 2020 –** erbyn bore Iau, 1 Hydref, 2020 gan ein bod am bostio'r amlen pnawn Iau am 1.00 o'r gloch i Lanuwchllyn.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Croeso – eich llythyron ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/7/2020.**

**Daliwch i swatio a darllen Yr Angor**

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Rwy'n falch o ddweud fod aelodau Capel Seion yn dal yn iach ac yn ymdopi gyda'r rheolau o hunan ynysu. Byddaf yn cysylltu â hwy ar y ffôn a bydd ein cynorthwy-ydd bugeiliol yn ffonio pob aelod am sgwrs fach ac maent yn ddiolchgar iawn iddo am wneud hynny.

Mae'r tywydd heulog braf yn gymorth mawr gan y medrwn fod allan yn yr awyr iach. Cawn edrych ymlaen am ddiwedd y gwanwyn a dechrau tymor yr haf.

Nid oeddwn yn hoff o'r gwyntoedd cryfion oedd yn achosi difrod mawr yn yr ardd ac yn achosi llu o nodwyddau pîn a conau pîn i ddisgyn ar yr ardd. Llafur caled oedd clirio'r holl lanastr ond 'roedd werth y llafur i gael gardd dwt unwaith eto. Mae'n debyg fod llawer ohonoch wedi dioddef niwed i'ch gerddi.

'Roedden yn falch iawn o ddeall fod ein cyn-weinidog, Y Parchedig Tom Wright, yn gwella'n foddhaol ar ôl dioddef o'r Corona feirws. Cawsom amser hapus iawn dan ei weinidogaeth o saith mlynedd o 1993-1999 pryd yr oedd llawer o weithgareddau yn mynd ymlaen, dau wasanaeth pob Sul a chyfarfod bob pnawn Iau ac 'roedd gennym Gymdeithas y Chwiorydd yn cyfarfod yn gyntaf yng nghartref Sydney Corran ac yna yng nghartref Misses Dilys a Vivienne Jones, Lingdale Road. Nid anghofiwn y gwyliau hapus a dreuliasom yng ngholeg Trefeca yng nghwmni aelodau Capel St John Street, Caer.

Gadewch i ni edrych ymlaen yn ffyddiog am y dyddiau gwell sydd yn sicr o ddod pan gawn gyfarfod â'n anwyliaid a'n cyfeillion unwaith eto a mynychu'r oedfa ar y Sul. Yn y cyfamser, pob bendith a cadwch yn ddiogel.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Yr ydym yn ddiolchgar o dderbyn Cylchlythyr wythnosol Bethel bob penwythnos i gael gwybod sut mae hi yn ein plith a hefyd i dderbyn neges ganolog ein cynorthwy-ydd bugeiliol, y Parchedig Robert Parry. Sylweddolwn pa mor beryglus yw Covid-19. Clywodd un o'n plith fod rhai o aelodau Côr enwog y Brythoniaid a fu'n cadw cyngerdd ym Manceinion ddiwedd Chwefror wedi cael y coronafeirws. Daeth hynny yn rhan o'n profiadau o fewn ychydig amser ar ôl cynnal Cyngerdd llwyddiannus ymhlith y Cymry ac eraill, a bu'r hanes yn yr *Angor*. Y mae cryn dipyn o wahaniaeth rhwng yr hyn a ganiateir yng Nghymru a'r hyn a ganiateir yn Lloegr ond nid yw Eglwys Bresbyteraidd Cymru eto wedi rhoddi arweiniad i'r Capeli. Gofynnwyd i arweinwyr pob capel lenwi holiadur, ac ar sail yr holiadur hwnnw y bwriedir gwneud y penderfyniad, ac yna bydd y dewis terfynol ar arweinwyr unigol pob Eglwys. Dyddiau anodd yw y rhain ond diolch am y gweddïau a'r gofal ymarferol a welir un ein plith fel eglwys y Crist ynghanol yr argyfwng.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Bu llewyrch arbennig ar y Cwis a gynhelid yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol a llwyddodd Dr. Pat Williams i gipio y marciau mwyaf. Trefnwyd *Zoom* gan Dr. John Williams a pharatowyd y cwestiynau Beiblaidd ar Ferched y Beibl gan y Parchg. Ddr. D. Ben Rees a'r cwestiynau cyffredinol gan Mrs Anne M. Jones. Casglwyd trwy'r Cwis y swm bendigedig o £945 i'w drosglwyddo i achos Cymorth Cristnogol. Gan fod hyn wedi bod yn gymaint o lwyddiant cynhelir Cwis ar ddydd Mercher 3 Mehefin ar Gerddoriaeth a pharatoir y cwestiynau y tro hwn gan un arall o'n harbenigwyr, Mrs Margaret Anwyl Williams, Allerton.

Y mae canmol garw i'r Cylchlythyr digidol a ddaw atom i'n cyfrifiaduron, homili hyfryd gan y Parchedig Robert Parry ac arweiniad i fyfyrio ar lwybr yr efengyl, a newyddion o'n plith. Nid oes prinder o ddeunydd darllen ar ein cyfer ac y mae pawb ohonom yn hiraethu am y 'cynteddoedd' ond yn sylweddoli na allwn rutho yn ôl heb drefnu yn drwyadl ar gyfer ein haelodau sydd mor gefnogol i'r dystiolaeth.




*Mai 16, 2020*

*Annwyl Ben,*

Rwyf newydd dderbyn copi Mehefin o'r *Angor*. Diolch am olygyddol rhagorol unwaith eto, mae'n ddyrchafol yn yr amseroedd anodd hyn. Diolch am ddefnyddio fy nghwis a chynnwys fy nghyfraniad i 'Taro Post' a hefyd am yr ymateb hollol teg, a roesoch fel golygydd.

Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y gwaith rydych chi wedi'i wneud dros y blynyddoedd fel gweinidog, yn bersonol i mi a fy nheulu a thuag at fy mam yn arbennig. Rydych chi wedi rhoi cefnogaeth a chysur i lawer ac wedi bod yng nghanol llawer o drychinebau fel Aberfan a Hillsborough. Mae gwaith gweinidog yn gyfrifoldeb enfawr, fel y dywedwch, ac rwy'n edmygu'r ffordd rydych yn mynd o gwmpas eich gwaith bob dydd.

Rydych chi'n gwneud rhai awgrymiadau cadarnhaol iawn ar gyfer cynnal gwasanaethau ac rwy'n hollol gefnogol iddynt os yw'n bosib i sicrhau diogelwch pobl.

Fy unig bryder yw y gallai'r rhai heb unrhyw ffydd na chrefydd ddefnyddio agor addoldai i ddadlau dros agor tafarndai a bwytai. Dyma le byddai angen arweinyddiaeth gan y llywodraeth, ond yn wahanol i'r hyn rydych chi'n ei ddweud yn eich ateb does gen i ddim ffydd yn y llywodraeth na Boris Johnson i'n harwain yn ddiogel gan nad ydyn nhw wedi gwneud hyd yn hyn, yn fy marn i.

Rwy'n gobeithio eich bod chi a'ch teulu'n cadw'n iach yn y cyfnod anodd hwn ac edrychaf ymlaen at wneud cyfraniadau pellach i'r *Angor* yn y dyfodol.

Cofion,

*David Williams (Karslake).*

*Claughton,*
*Cilgwri,*

*Annwyl Dr Rees,*

Diolch i chi am gyhoeddi'r *Angor* yn fisol, mae pawb yn edrych ymlaen ym Mhenbedw a'r cylch am ei dderbyn a chael newyddion am wahanol i bethau a glywn a darllen erthyglau difyr iawn. Gwerthfawrogwn eich llafur diflino.

Gyda'm dymuniadau gorau i chwi eich dau.

*Yn ddiolchgar,*
*Mair Rees Jones*

CYMRAEG
Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*

*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

**Cysylltwch â'r**
YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'
garthdriveben@gmail.com

# BRASLUN O HANES CYMDEITHAS ETIFEDDIAETH CYMRY GLANNAU MERSI (2000-2020)


### *gan yr Ysgrifennydd, Dr Arthur Thomas, Allerton, Lerpwl*

Mewn cyfnod o ansicrwydd calondid o'r mwyaf yw edrych yn ôl ar yr hyn mae'r Gymdeithas wedi ei gyflawnu ers ei sefydlu ar droad y ganrif gyda D. Ben Rees yn gadeirydd, ac sy'n dal yn egniol wrth y llyw. Bu ei wybodaeth ef o Gymry Lerpwl yn gymhorth inni fel Pwyllgor gweithredu gyda rhaglen hynod o uchelgeisiol. Erys tri aelod o'r pwyllgor cychwynol yn ffyddlon sef Beryl Williams, Dr Pat Williams a Rachel Gooding (Trysorydd) hyd heddiw, gyda Brian Thomas, Nan Hughes Parry, Elin Bryn Boyd a minnau yn ysgrifennydd. Yn fras, bwriad y Gymdeithas yw dathlu cyfraniad Cymry blaenllaw i fywyd a diwylliant Cymraeg ar y Glannau ac yng Nghymru ac i'r gymdeithas leol.

Ar gyfartaledd cynhaliwyd un neu ddwy ŵyl bob blwyddyn, gyda eithriad sylweddol yn 2008 pan oedd Lerpwl yn 'Ddinas Diwylliant'. Trefnu gŵyl dros y penwythnos, yn darlithiau ar fore Sadwrn, cyngerdd yn yr hwyr a gwasanaeth o ddiochgarwch ar fore Sul. Mae'r hanes yn hynod drawiadol. Gwahoddwyd rhyw ugain o ddarlithwyr blaenllaw, heb gyfrif cyfraniadau gan aelodau o'r pwyllgor. Ymysg enwau cyfarwydd mae Wyn James, Robin Gwyndaf, Gwyn Thomas, Deryn Rees-Jones, Trevor Fishlock, Elvey Macdonald, Huw Edwards, Peredur Lynch a'r paragon ddarlithydd Hywel Teifi Edwards. Daeth rhyw bymtheg o gôrau atom gan gynnwys, Côr y Rhos, Trelawnyd, Brythoniaid, Tŷ Tawe, Y Porthmyn a Ieuenctid Môn. Hefyd cafwyd cyfraniadau cofiadwy gan Llyr Williams, Robat Arwyn, Sion Goronwy, Trebor Edwards, Huw Ynyr a Robin Huw Bowen.

Gweithred gyntaf y Gymdeithas yn 2002 oedd gosod carreg ar fedd Gwilym Deudraeth ym mynwent Allerton. Wedyn gosodwyd placiau ar gartrefi arbennig ac adeiladau crefyddol, megis cartref Saunders Lewis yn Wallasey, safle capel Stanley Road, Bootle, placiau i gofio Henry Rees, Chatham Street, a'i frawd Gwilym Hiraethog, Grove Street. Gosodwyd plac hefyd yn Devonshire Road, cartref J. Glyn Davies a George Ll. Davies. Wedi hynny bu llu o wyliau i anrhydeddu unigolion, megis y cerflynudd John Gibson, Pedrog, Moelwyn, John Thomas (tynnwr lluniau), a David Roberts. Trefnwyd gwyliau yn olrhain cyfraniadau cerddorion, adeiladwyr, cyhoeddwyr, y Gwasanaeth Iechyd, ac i ddathlu deugain mlynedd o'r Angor.

Efallai mae y gwyliau mwyaf cofiadwy oedd dwy ŵyl yn gysylltiedig a'r *Mimosa* (2008 a 2015) a Gŵyl Hedd Wyn (2017). Gobeithiwyd ar un adeg gosod cofeb i'r *Mimosa* ar y Pier Head ond ni fu modd gwneud hynny. Felly penderfynwyd cael model o'r llong a'i chyflwyno i'r Amgueddfa Forwrol, lle mae yn dal yn atyniad poblogaidd. Yn 2015 daeth cyfle i osod cofeb ar lan yr afon (trwy haelioni Peel Holdings), ac fe gafwyd rhaglen gynhwysfawr a fu yn atyniad mawr. Llywyddwyd y seremoni ddadorchuddio gan Huw Edwards ym mhresenoldeb Yr Arglwydd Faer, Prif Weinidog Cymru, yr Archdderwydd, Llysgennad yr Arianin, a Chôr Ysgol yr Hendre, Trelew. Ym mis Medi 2017 daeth cynulleidfa luosog i Ŵyl Hedd Wyn ym Mharc Penbedw i fwynhau darlithiau gan D. Ben Rees, Robert Lee, Peredur Lynch a Huw Edwards, dadorchuddio cofeb i Hedd Wyn yn y Parc, cadeirio'r bardd gan yr Archdderwydd a chyngerdd gan ddau gôr yn yr hwyr. Casglwyd dros ugain mil er hybu y ddwy ŵyl ac fe paratowyd dwy rhaglen gynhwysfawr gan y cadeirydd. Eleni yr oeddem wedi bwriadu gweld dau ddigwyddiad yn chwe mis olaf y flwyddyn hon sef Gŵyl Emyr Wyn Jones a Enid Wyn Jones a hynny ar 19 a 20 Medi, gwrthrychau teilwng iawn o'n gwrogaeth. Yna bwriedid cyhoeddi cyfrol Saesneg amdanon *Liverpool Welsh: A Remarkable History* yn mis Tachwedd 2020 ond yn awr fe gynhelir lawnsiad y gyfrol hardd hon yn haf 2021, a diolchwn fod y rhoddion yn dal i ddod atom ac y cawn gyfle i nawddogi y gyfrol hyd eithaf ein gallu. Felly gofid ydyw ymddiheurio ond nid oes ffordd arall ar ein cyfer.




## MERSEYSIDE WELSH HERITAGE SOCIETY

# *APPEAL 2020 AND 2021*

***prepared by Dr. D. B. Rees (Chairman/Author), Rachel Gooding (Treasurer) and Dr. Arthur Thomas (Secretary)***

**LIVERPOOL WELSH: A REMARKABLE HISTORY.**

Gwasg Y Lolfa, Talybont has given us the good news that the volume *Liverpool Welsh: A Remarkable History* will be in the booksellers summer 2021, so we have time to achieve the goal of £7,500 by 1 May, 2021.

We are so grateful for List 4 as we had received by 31 March the sum of £1,200. Every donation will be gratefully received and acknowledged in the book by inserting your name and a gift will ensure you a copy of a hard back volume. It will be signed and you will be invited to the launching of the book in May 2021.

**List one: £550; List two: £450; List 3: £200**

## LIST FOUR (1/4/2020 i 31/5/2020)

1) Rex Makin Family Trust, Liverpool the sum of ................£100
2) Joe Clitherow and family, Kensington and Allerton the sum of ..........................................................................£50
3) Canon Reverend D. Owain Bell, Kempsey, near Worcester the sum of .........................................................£20
4) Er cof am fy annwyl fam, Mrs Elizabeth Winifred Morris, 91 oed, 45 Borrowdale Road, Lerpwl a Llain yr Haf, Llanddaniel Fab, Môn y swm o ..........................................£50
5) Mrs Jennifer Cunningham, Blundellsands, Liverpool 23 the sum of ..........................................................................£50
6) Mrs Menna Edwards, Blundellsands, Liverpool 23 the sum of ..........................................................................£50
7) In memory of David Evans (1963-2020), Kingsley near Frodsham, by his beloved wife Anita and son William the sum of..............................................................£50
8) Elizabeth and Mal Owen, Halewood the sum of £50

**Total / Cyfanswm.................................£420**

So we have reached the sum of £1,620

***Please assist as soon as it is possible.***
***Can you please send your donations to***
***Merseyside Welsh Heritage Society /***
***Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi***
***c/o 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW.***

# CEISIO DARFOD Y DARFODEDIGAETH

## *gan Dr. John G. Williams*

Mae'r holl sôn am gael hyd i gleifion gyda COVID-19 a'r bobl sydd wedi bod mewn cysylltiad â nhw yn fy atgoffa o fy amser yn y *'TB Contact clinic'* yn Ysbyty Aintree degawdau yn ôl.

Mae'r Ddarfodedigaeth (Tuberculosis) yn glefyd nad ydym yn clywed llawer amdano ar hyn o bryd ond dyma oedd yr achos mwyaf o farwolaethau yng nghanol y bedwaredd ganrif a bymtheg yn y gwledydd diwydiannol. Gelwir yr afiechyd 'y Pla Gwyn' gan fod cleifion yn edrych mor welw. Bu 117,000 o gleifion gyda'r cyflwr ym Mhrydain yn 1913.

Yn dilyn yr Ail Ryfel Byd cychwynnodd Llywodraeth Attlee raglen i wella'r iechyd yn y Deyrnas Unedig. Cofodd amodau byw eu gwella. Dechreuodd y Llywodraeth chwilio am bobl gyda'r Ddarfodedigaeth er mwyn eu gwella gyda'r cyffuriau oedd newydd gael eu ddatblygu am y cyflwr a gostwng y siawns o un claf yn trosglwyddo'r afiechyd i'w deulu a ffrindiau.




*Pobl yn disgwyl o flaen Uned symudol*

1. Sefydlwyd cyfundrefn sgrinio am gleifion trwy ddefnyddio'r isod

a) Cyfundrefn genedlaethol o sgrinio trwy cymeryd Pelydr X o ysgyfaint pobl gan mai'r ysgyfaint oedd tarddiad y mwyafrif o'r achosion. Bu nifer helaeth o faniau gydag offer tynnu pelydr X yn ymweld â ffatrïoedd, neuaddau trefi ac ysgolion ac roedd llawer o hysbysebion yn cael eu cynhyrchu er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at y gwasanaeth yma.



***PELYDR X YR YSGYFAINT gyda'r ddarfodedigaeth wrth ymyl y saeth gwyn***






*Hysbyseb yn annog pobl i fynd am Belydr X*



*Gwn 'Davy Crockett'*



b) Arbrawf Heaf – Offeryn diagnostig arall mae llawer o bobl fy oedran i yn ei gofio oedd y syringe 'Davy Crockett' yn yr ysgol. Roedd ganddo 6 nodwydd, a gafodd ymlaen llaw eu trochi o'r blaen mewn deilliad wedi'i buro â phrotein twbercwlin a'i chwistrellu i'ch braich heb ddim trugaredd. Roedd yn rhaid gweld Nyrs yr Ysgol 2 i 7

diwrnod yn ddiweddarach wedi’r pigiad i ddarllen y canlyniad a oedd yn cael ei raddio o 0 (dim adwaith) i 4 (adwaith mawr). Roedd y newyddion yn ddrwg naill ffordd neu'r llall – os nad oedd adwaith (0) yna y cawsoch y brechiad yn erbyn y ddarfodedigaeth (BCG) yn syth ‘bin’. Pe bai gennych adwaith mawr (3-4) roedd angen profion ychwanegol i sicrhau nad oeddech yn dioddef o’r afiechyd.

2. Sefydlwyd cyfundrefn i ddarganfod pobl oedd wedi cysylltu gyda phob achos newydd o’r ddarfodedigaeth. Dyma’r rhan hanfodol o raglen gofal person oedd yn dioddef o’r afiechyd. Roedd y ‘nyrsys TB’ yn enwog am eu dycnwch wrth ddarganfod pwy oedd cysylltiadau'r claf! Eu gwaith wedyn oedd eu ‘hannog’ am asesiad gan feddyg yn y ‘TB Contact Clinic’!

Trwy drugaredd fe ddarganfuwyd cyffuriau effeithiol a brechlyn yn erbyn y bacteriwm angheuol oedd yn achosi'r Ddarfodedigaeth sef *Mycobacterium tuberculosis*. Er hynny mae 5,000 o achosion newydd yn dal i gael eu darganfod ym Mhrydain bob blwyddyn. Braf gweld y Llywodraeth yn ceisio dilyn llwybrau a ddefnyddiwyd i ostwng nifer o achosion afiechyd heintus eraill – gwell hwyr na hwyrach!!



***‘The Sick Child’ gan Edvard Munch er cof am ei chwaer a fu farw o’r Ddarfodedigaeth***

---

# Cofio David James Jones
## (Gwenallt: 1899-1968)
### *gan Dr. Pat Williams, Allerton*

Ganed Gwenallt yn Sir Forgannwg, ond ei gartref ysbrydol oedd Sir Gaerfyrddin, o le yr hannai ei deulu yn wreiddiol. Dywed mewn soned i Sir Gaerfyrddin, pan âi yno ar ymweliad, ei fod yn gallu

*gorffwyso’n llwyr*
*Gan godi adain a chael mynd yn rhydd*
*Fel colomennod alltud, gyda’r hwyr.*

Ond roedd yn cydnabod rhinweddau Sir Forgannwg hefyd fel y gwelir yn y gerdd hon i’r ddwy sir:

*Dyneiddiaeth y pwll glo, duwioldeb y wlad:*
*Tawe a Thywi, Canaan a Chymru, daear a nef.*

Roedd y profiad o weld â’i lygaid ei hun gyni brodorion y cymoedd glo wedi cael dylanwad mawr ar Gwenallt ac wedi ei droi’n sosialydd di-gyfaddawd, a oedd am sicrhau cyfiawnder a thegwch i’r werin sathredig. Yn ôl Gwenallt, imperialwyr a chyfalafwyr oedd yn gyfrifol am y Rhyfel Byd Cyntaf, a dyna paham, yn hytrach nag am resymau crefyddol, y cofrestrodd, yn fachgen ifanc 17 mlwydd oed, fel gwrthwynebydd cydwybodol a chael ei garcharu am ei safiad. Daliai wrth yr un egwyddor yn 1939, fel y gwelir yn yr eglyn isod a luniodd i gefnogi cyfarfod Plaid Cymru, a drefnwyd i wrthwynebu gorfodaeth filwrol:


*Dyma rôl ein marwolaeth, - dwyn ein byd*
*Dan balf ymerodraeth;*
*Bwriai’r gwynt dros ein bro gaeth,*
*A llwydrew ein llywodraeth.*

Ond er iddo droi ei gefn ar ei fagwraeth grefyddol ymneilltuol am ysbaid yn ei ieuenctid, trôdd yn ôl at Gristnogaeth yn ddiweddarach yn ei fywyd a chael ei gydnabod yn un o’r beirdd crefyddol mwyaf a welodd Cymru erioed. Un o gasbethau Gwenallt oedd crefyddolder arwynebol, fel y mynega yn ei gerdd ‘Ar Gyfeiliorn’: ‘Gwae inni wybod y geiriau heb adnabod y Gair’, ond yr ateb i broblemau bywyd yn y pendraw yw troi at Dduw:

*A phan fo’r ddaear fel braenar briw*
*Down â haul o’r byd anweledig,*
*down â’r gwanwyn i ddwylaw Duw.*

Gwêl Gwenallt ddylanwad Cristnogaeth ar Gymru hefyd a’i galw’n ‘forwyn’ i Dduw mewn un gerdd; ond nid yw’n ddall i’w ffaeleddau a chyfeiria ati mewn cerdd arall fel ‘putain fudr y stryd’. Weithiau teimla’r iaith ‘megis pwn’ a’r ‘traddodiadau’n hual am ein traed’, ond er gwaethaf popeth, rhaid i ni frwydro i’w hachub. Mae’n feirniadol o’r ffordd y tynnwyd Cymru i’r rhyfel a dweud, ‘Yr hyn a wnânt i ni a wnaethant gynt i’n tadau ... / yr un hen ormes a thrais’ ond ‘Fe awn er dy fwyn yn ferthyron y tu ôl i farrau haearn.’

Roedd cynnyrch llenyddol Gwenallt yn doreithiog. Cyfansoddodd 348 o gerddi heb sôn am ddwy nofel a nifer o astudiaethau ysgolheigaidd. Daeth ei enw i sylw’r cyhoedd gyntaf oll pan enillodd y gadair gyda’i awdl ‘Y Mynach’ yn Eisteddfod Treorci 1926. Ei ffug-enw oedd Gwenallt, ar ôl Alltwen, y pentref lle




y ganed, ac wrth yr enw hwnnw mae’n wybyddus ers hynny. Cyflawnodd yr un gamp gyda’i awdl ‘Breuddwyd y Bardd’ yn Eisteddfod Bangor 1931, ond yr awdl a ddenodd y sylw mwyaf yw ‘Y Sant’, y gwrthodwyd ei gwobrwyo yn Eisteddfod Aberystwyth 1928, er gwaethaf safon uchel y mynegiant, am fod y cynnwys yn cael ei ystyried gan y beirniaid yn anweddus. Troedigaeth ysbrydol dyn ifanc yw’r testun ond yn nhŷb y beirniaid roedd gormod o bwylais ar bechodau’r sant nes troi’r cwbl, yng ngeiriau Syr John Morris Jones, yn ‘bentwr o aflendid.’ Roedd yr awdl o flaen ei hoes ac yn ôl safonau heddiw, ni fyddai ei gwobrwyo yn broblem.

Bardd ei gyfnod oedd Gwenallt a bydd y cyfeiriadau beiblaidd yn ddieithr i’r rhan fwyaf o bobl ifanc heddiw sydd heb gael magwraeth yn yr Ysgol Sul, ond mae’r nodiadau gan Christine James yn *Y Casgliad Cyflawn* o gerddi Gwenallt yn taflu goleuni arnynt ac yn sicrhau bod y darllenydd yn cael pleser o’u darllen.

# HEL ATGOFION YN ARDAL PENNY LANE

### *gan David Williams (gynt o Karslake Road, Lerpwl)*

Mae ysgrif Goffa'r golygydd i Mrs Megan Miles, Woolton yn un raenus fel y maen nhw bob amser yn yr *Angor* a bob tro maen nhw'n gwneud i mi hel atgofion. Rwy'n cofio mynd i Salisbury Farm yn Stryd Fawr, Woolton i ganu carolau gyda'r gweinidog a parti carolwyr o gapel Heathfield Road a derbyn croeso cynnes y ddau o Geredigion a bwyd rhagorol wedi ei pharatoi at ein cyfer ar ddiwedd y sesiwn o ganu pedair carol!

Cofiaf hefyd yn dda llaethdai fel oedd yn Woolton o gwmpas fy nghartref innau yn Karslake Road. Roedd Mr Coulthwaite yn cadw llaethdy ar gyffordd Penny Lane a Briardale Road. Roedd yn cadw gwartheg godro dros y bont reilffordd ar y tir lle mae neuaddau preswyl Rathbone, Prifysgol Lerpwl yn sefyll bellach. Arferai yrru'r gwartheg ar y ffordd dros y bont i'r llaethdy bob dydd i'w godro. Roedd Mr Martin, oedd yn byw gyferbyn â ni, yn cadw llaethdy ychydig o strydoedd i ffwrdd yn Russell Road tuag at Penny Lane ac yn anfon llaeth gyda cheffyl a throl gyda'r llaeth wedi corddi.

Gallaf gofio fod dynion y bin yn defnyddio ceffylau a throliau ac fe'u cadwyd mewn stablau ar Smithdown Road, ar y tir lle mae gan Wescott Factory Meats eu safle bellach. Roedd yna ddyn hefyd a arferai ddod rownd gyda cheffyl a wagen yn gwerthu nwyddau canhwyllyr (*chandlery*), gan gynnwys rhai hylifau diddorol iawn o liwiau amrywiol mewn amrywiaeth o boteli gwydr wedi'u hailgylchu gyda chorcion fel stopiau. Nid iechyd a diogelwch yn bwysig iawn y dyddiau hynny. Cadwodd ei geffyl mewn stabl ger Stanley Terrace, oddi ar Bridge Road yn Mossley Hill.

Wrth i'r Golygydd yn ei ysgrif sôn amdano yn 'prynu twrci yn fferm Salisbury' mae'n gwneud i mi feddwl am yr aderyn a gawsom ni fel teulu yn Karslake adeg y Nadolig un blwyddyn. Nid oeddem am gerdded ychydig lathenni i brynu aderyn gan Mr Tunnah y cigydd rownd y gornel, O na! roedd yn rhaid cael aderyn o'r fro Gymraeg adeg y Nadolig, ie yr holl ffordd o Benrhyn Llŷn.

Weithiau Twrci un Nadolig ac amseroedd eraill byddai Gŵydd ar y bwrdd. Nid oedd yr aderyn wedi hedfan yr holl ffordd o Gymru ond cafodd daith ddiddorol. Cael ei rhoi ar fws Crosville yn Nefyn gan Anti Margaret neu Yncl John a'i gludo oddiyno i dref Pwllheli. Yna ymlaen am Gaernarfon. Yno cafodd ei roi ar y bws i Lerpwl a fy ngwaith i oedd ei gasglu o garej Crosville yn Edge Lane a mynd ag ef adref dan ganu at mam, a hynny ar fws corfforaeth dinas Lerpwl.

Fel y dywed geiriau o gân John ac Alun *'Dyddiau Difyr, Dyddiau Difyr, Dyddiau Difyr Iawn'*.

## AELWYD YR URDD DE LERPWL

**(ar ôl ennill marciau mwyaf Eisteddfod Aelwydydd y Glannau yn Neuadd Picton)**



18 wedi eu magu yn Lerpwl (dwy res ôl yr hogiau yn arbennig)
Dyma yr enwau oedd ar glawr y llun – mae ambell i enw ar goll
Dafydd, Peter, Trefor, Robin Huws, ?, Gwynfor Roberts, Hywel Morris, Alan J, Iorwerth W.
John Meirion Morris, Bethan LL. W., Dafydd Meirion, Babs Thomas, Sydney, Glenys, John Medwyn, Gwilym, ? ? ? ?
? ? Glenys Eardley, Enid Jones, Delyth , ? ? ? Jane Hughes
Rhes flaen: Dilwyn J, John O. Roberts, ? ; Wallace Jones; Edgar; Hughie John; Malltwen; David Elwyn

**Gol.** – Diolch i Dafydd Jones, Wyddgrug (a gynt o Meldrum Road, Wavertree) am gael defnyddio'r llun hwn sydd yn rhoddi cipolwg ar yr holl Gymry ifanc oedd yn y ddinas yn niwedd y pumdegau o'r ganrif ddiwethaf)

# Tair Colofn yn Doethinebu a Barnu

## Doethinebu a Deall i bob un ohonom

i) Nid yw'r Toriaid byth yn mynd i banic, ond pan fyddent mewn ceisis – ***Syr John Hoskyns.***

ii) Diogelwch gwlad yw heddwch â Duw – ***Parchedig Deri Morgan***

iii) Nid i wasanaethu yn yr *Home Guard* neu'r *Peace Pledge Unio*n y'n galwyd, nid ym muddugoliaeth Plaid Lafur na Phlaid Cymru y mae ein gorfoledd ni – ***Y Parch John Roberts, Caerdydd***

iv) Of all tyrannies, a tyranny sincerely exercised for the good of its victims may be the most oppressive – ***C. S. Lewis*** (cyfieithwch ef os gwelwch yn dda)

v) Dywedwch wrth y gynulleidfa beth ydach chi am ei ddweud, yna dywedwch eich pwt, ac yna dywedwch wrthynt pa beth a ddywedasoch – ***Dale Carnegie***

vi) Mae'n od – fod dewrder corfforol mor gyffredin yn y byd a dewrder moesol mor brin – ***Mark Twain***

## Anodd Credu heddiw

i) Pwy gafodd y bai am y *Black Death*? **Ateb**: Iddewon.

ii) Pwy gafodd y bai am Covid-19? **Ateb**: Seina a Donald Trump.

iii) Methodd Prif Weinidog yr Iseldiroedd fynd i angladd ei fam. **Ateb**: Do. Oherwydd rheolau Covid-19.

iv) Fod y Llywodraeth wedi addo 3,300 o dai i'r di-gartref o fewn 12 mis fel na fydd raid iddynt ddychwelyd i'r strydoedd. Rhyfedd fod feirws yn gorfodi llywodraethwyr a fu am ddegawd yn llusgo'i traed.



v) Mae J. K. Rowling o Gaeredin yn mynd i roddi am ddim gyfrol o'i gwaith, o'r enw *The Ickabog* i bob plentyn a fu'n swatio y misoedd diwethaf yn eu cartrefi.

## Barn Pobl Prydain

i) Cred 71% o bobl Prydain fod Dominic Cummings wedi torri holl reolau a ddyfeisiodd ef ei hun.



ii) Dywed 59% o bobl Prydain y dylai Cummings ymddiswyddo ond ni all y Prif Weinidog fodoli fel arweinydd y Deyrnas Unedig hebddo. *(BBC sy'n gyfrifol am y pôl)*

iii) Cred 45% o oedolion Lloegr mai Seina a greodd Covid-19 fel arf i reoli'r Gorllewin.

iv) Cred 59% o bobl Prydain fod y Llywodraeth bresennol i raddau helaeth yn camarwain y boblogaeth am achos y feirws *(pôl a wnaed gan y Daily Telegraph a Phrifysgol Rhydychen)*

v) Byddai 44% o bobl Prydain yn falch o gael y rhyddid i weithio adref ar ôl i'r *lockdown* orffen. Eisioes gofynnodd 20% am gael bod adref (pôl y *Telegraph*)


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514


# SIGÂR M. H. ABRAMS

Dywedais mewn ysgrif o'r blaen imi fod yn tacluso'r stydi, ac imi ddod o hyd i deipsgript llyfr o ysgrifau y gwrthododd rhyw wasg ei gyhoeddi chwarter canrif yn ôl. Wel, wrth glirio drôrs un o'r ddwy ddesg sydd yn y stydi honno, deuthum o hyd i gasyn sigâr a gefais gan un o feirniaid llenyddol mwyaf ei ddydd, arbenigwr gwych ar Ramantiaeth, sef yr Athro M. H. Abrams, awdur *The Mirror and the Lamp* a *Supernatural Naturalism* ymhlith llyfrau mawr mawr eraill.

Yr oeddwn wedi mynd i Brifysgol Cornell i dreulio haf 1981 yn dysgu Cymraeg mewn ysgol haf a drefnwyd yno gan ddyn o'r enw Fred Ahl, athro Lladin y buasai'i dad yn un o'r peirianwyr a gododd fast darlledu Llanddona ym Môn flynyddoedd lawer ynghynt. Un bore Sul, fel gwesteion i Winthrop Wetherbee III, athro Lladin arall y daethom yn gyfeillgar ag ef, aethom i bwll nofio agored y brifysgol. A phwy oedd yn eistedd ar ei lan yn torheulo'n ei wisg nofio ond M. H. Abrams.

A chyda'r hyfdra hwnnw sy'n gwroli crwt i fynd i ofyn i Mike Brearley neu David Gower am ei lofnod, euthum ato a'i gyfarch, nodi fy ngwerthfawrogiad o'i waith, a chael derbyniad cynnes iawn ganddo. Yn wir, estynnodd wahoddiad i'm gwraig a minnau fynd i'w gartref un noson, ar ôl swper. Cawsom goffi a phob o ddarn o deisen siocled, ac wedyn cawsom bob o lasiad o ddiod gadarn; a chefais i sigâr. Mi gofiaf ran o'r sgwrs hefyd. Yr oedd gan Abrams ddamcaniaeth fod dylanwad Celtaidd ar y lliwiau a roddodd John Milton i adenydd yr angylion yn *Paradise Lost*. A minnau'n rhyw lun o ysgolhaig Celtaidd, dymunai wybod beth a feddyliwn ohoni. Ateb pitw a gafodd, druan.

Ond yn ôl at y sigâr. Yr oedd hi'n dda, Hafana go iawn. Ac fe'i cefais mewn casyn arianlas. Rhoddais y câs yn fy mhoced, a'i gadw – gyda'r bwriad sicr o'i ddangos ar ôl imi ddychwelyd i Gymru i'm cyfaill Dafydd Elis Thomas, yr hwn hefyd a edmygai waith Abrams. Eisiau iddo eiddigeddu wrthyf yr oeddwn, wrth



*M. H. Abrams*

gwrs. Ond does gennyf ddim cof imi ddangos y câs iddo. Ac aeth y blynyddoedd heibio.

Fel y dywedais, deuthum o hyd iddo'r dydd o'r blaen, yn dystiolaeth fud o hen hen gyfarfyddiad. Na, doedd y dystiolaeth ddim yn gwbl fud, oherwydd yr oeddwn wedi selotapio papur dwy fodfedd am y câs, ac arno'r arysgrifiad: 'casyn sigâr a gefais gan M. H. Abrams, Ithaca, Talaith Efrog Newydd, Gorffennaf 1981'.

I'r bin y cafodd y câs fynd. Nid heb betruso. Meddyliais am eiliad y cadwn ef i'r oesoedd a ddêl, a phe digwyddai imi drwy anap fynd mor dlawd fel na allwn brynu torth o fara, y gallwn drwy Sotheby's neu Christie's ei werthu i ryw jac-dô o brifysgol yn yr Unol Daleithiau a roddai imi fil o ddoleri amdano. Och, wedyn, meddyliais nad oedd gennyf ddim prawf taw M. H. Abrams a'i rhoddodd imi. A rhoddais ffleng iddo. Ond beth am ei ddangos i'r Arglwydd Elis-Thomas? meddech chi. Na phryderwch, y bore Sul hanesyddol hwnnw tynnodd Winthrop Wetherbee snapshot o Abrams yn ei gadair a minnau'n penlinio ger ei fron, ac y mae hwnnw gennyf o hyd. A'r arysgrif ar ei gefn? – 'Beirniadaeth lenyddol mewn dillad nofio.'

***Derec Llwyd Morgan***

***Myfyrdod***

# HENDRE

Pan oeddwn yn byw yn Nhŷ Capel, Bethel, Waenfawr roeddem ar rhai Suliau yn cael gweinidogion yn aros rhwng cyfarfod y bore tan cyfarfod yr hwyr. Mam yn gofalu am ginio a the. Roedd llawer yn mynd adref os oedd ganddynt gar. Doedd un, er yn byw yn agos bob tro yn aros, sef Parch William Morris, Siloh. Caernarfon. Yn ôl fy nhad roedd y "Parchedig" yn "*fancy-man*" Mam. Chi'n gweld roedd Parch William Morris wedi cael ei eni a'i fagu yn 'Stiniog – ac wel "hen siarad wedyn ac amser i roi y byd yn ei le mor bell oedd 'Stiniog yn y cwestiwn. Beth bynnag i chi fe gymerais un Sul cymeryd yr hyfdra a gofyn, oherwydd roedd William Morris yn dda iawn am hanes ei febyd ac fe gefais hanes Dafydd a Catherine Huws, yr Hendre.

Ym meddwl y trigolion o gwmpas y Manod a Chwm Orthin roedd Dafydd Huws yn halen y ddaear ac roedd Catherine mewn achosion dyngarol ddim ymhell ar ei ôl. Roedd Dafydd yn gyfreithiwr o'r radd uchaf ac yn ofalus iawn o eiddo'r trigolion a'r ffermwyr. Yn ogystal roedd yn Drysorydd, capel Bethesda ac yn gynrychiolydd gwahanol bwyllgorau. Yn wir, medrwch ddweud amdano "Dedwydd yw rhoi yn hytrach na derbyn". Does dim modd rhestru cymwynasau Dafydd a'i briod ar hyd y blynyddoedct. Yn naturiol pan mae dyn yn heneiddio mae'n arafu a doedd dim eithriad yng ngwaith Dafydd er roedd yn colli ambell bwyllgor a rhai materion yn cymeryd mwy o amser. Dyma'r trigolion yn cwrdd a phasiwyd, yn ddistaw bach, i wneud TYSTEB i Dafydd a Catherine a phenodwyd dau i fynd i'w gweld. Ni chafwyd croeso o gwbwl na hyd yn oed paned o de!! Beth gawsom? Dim diolch a clep ar y drws. Yn wir roedd pawb wedi eu siomi'n ddirfawr. Roeddynt ond eisiau dangos eu diolch am yr holl oedd Dafydd a Catherine wedi'u gwneud ar hyd y blynyddoedd dros y gymdogaeth.


Bodlonodd y trigolion am y tro ac fel oedd Mam wastad yn dweud "Dydy Duw ddim yn cysgu" a buasai cyfle'n dod eto. Yn ddiarwybod i'r trigolion roedd cwpwl yr Hendre wedi penderfynu gwerthu a symud i le llai na'r Hendre ond nid oeddynt am roi gorau i ffermio. Dyma gyhoeddi ocsiwn o rhai pethau a stoc. Fe ddaeth tyrfa fawr i'r Hendre oherwydd ei henw da a safon uchaf o'i stoc. Yn ôl y farn roedd yr ocsiwn yn llwyddiannus iawn.

Beth bynnag i chi roedd yna sioc rhyfeddod i ddod. Disgwylid i'r stoc a'r celfi cael eu symud OND – Fe aeth y loriau, trailers a'r ceir oddiyno NI SYMUDWYD DIM - YN ANIFAIL A CHELFI O'R BUARTH. Roedd yr ardal wedi prynu popeth a'u gadael yn y buarth. Pan welwyd hyn dyma Dafydd a Catherine wedi eu syfrdanu ac yn diolch yn eu dagrau. Fe orchfygwyd eu balchder. Pobol ar hyd y blynyddoedd wedi bod yn RHODDI ac awr yn gorfod DERBYN am eu caredigrwydd. Tro ar fyd, ynte? Y rhod yn troi.

***Elwyn***

# Cyfrol deyrnged eithriadol o emosiynol ond eto haeddiannol a phwysig dros ben

**Adolygiad Dr J. Graham Jones o Rhunanedd Richards (gol.), GWLADGAWR GWENT: SON OF GWENT: COFIO STEFFAN LEWIS. Gwasg y Lolfa. £9.99 (clawr meddal)**




'Dwi ddim yn mynd i fod y Steffan Lewis sydd efo canser. Dwi'n mynd i fod yn Steffan Lewis y tad, Steffan Lewis y mab, Steffan Lewis y gŵr a Steffan Lewis y gwleidydd'.

Wele un o'r cyfrolau tristaf a mwyaf ingol a ddarllenais erioed, ac eto ar un olwg dyma un o'r mwyaf haeddiannol ac arwyddocaol.

Roedd Steffan Lewis yn ddi-os yn un o'r gwleidyddion galluocaf a mwyaf addawol a fagodd ein gwlad erioed. Yng ngeiriau cryno Adam Price, arweinydd Plaid Cymru ar hyn o bryd, roedd gan Steffan 'rhyw athrylith i barhau' o fewn cyfundrefn wleidyddol Cymru am gyfnod hir iawn. Ond, wrth gwrs, nid felly y bu.

Cafodd Steffan ei ethol fel aelod o'n Cynulliad Cenedlaethol yn etholiad 2016 i gynrychioli rhanbarth dwyreiniol de Cymru (fel olynydd i Jocelyn Davies, un a fu'n cydweithio ag ef am gyfnod cyn hynny), ac yntau ond yn 32 mlwydd oed – yr aelod ieuengaf erioed i eistedd yno yn hanes y Cynulliad ers ei sefydlu. Cyn hynny, roedd wedi creu argraff ffafriol lawn pan safodd fel ymgeisydd Plaid Cymru yn isetholiad Blaenau Gwent 2006 pan gipiodd 6.5 y cant o'r bleidlais yno, gan brofi ei hun yn Gymro cadarn, cryf a gwleidydd naturiol wrth reddf. Roedd wedi ymddiddori o ddifrif mewn gwleidyddiaeth a gwella pethau i Gymru ers oedran ifanc iawn,

Roedd y rhagolygon yn eithriadol o ffafriol ar gyfer dyfodol disglair, llawn ymroddiad, yn enwedig pan benodwyd Steffan yn lleferydd ei blaid dros faterion allanol, ac ef a ddaeth yn bennaf gyfrifol am fynegi agwedd Plaid Cymru tuag at drafodaethau Brexit. O fewn misoedd darganfuwyd ei fod yn dioddef o gancr nad oedd modd ei drin yn foddhaol, a bu farw yn ystod mis Ionawr 2019 ac yntau ond yn 34 mlwydd oed.

Ac o fewn y gyfrol hyfryd hon ceir llu o gyfraniadau o waith aelodau o'i deulu, ffrindiau a gwleidyddion (gyda Dafydd Wigley, Adam Price, Leanne Wood ac Elin Jones yn eu plith) sydd yn llwyddo i glymu'r gwleidyddol a'r personol ynghyd mewn dull arbennig dros ben. A cheir nifer o gyfraniadau pwrpasol yma yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd.

Disgrifiwyd ef gan Rhuanedd Richards, golygydd ymroddgar y gyfrol, cyn-newyddiadurwr a ffrind agos i Steffan fel "hen ben ar ysgwyddau ifanc". Yn y gyfrol, ceir deunydd amrywiol, gan gynnwys cyfraniadau o waith Steffan ei hun (yn eu plith rhai o'i areithiau gwleidyddol cyhoeddus mwyaf grymus a dylanwadol rhwng 2016 a 2018, ac araith sylweddol ar gwrs hanes Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni, Awst 2016, darlith a luniwyd o bersbectif Pleidiwr cadarn a thanbaid), ac atgofion gan bobol oedd yn ei nabod orau, gan gynnwys rhai o ffigyrau gwleidyddol mwyaf adnabyddus Cymru, ynghyd â rhai ffrindiau a chyfeillion agos.

Ynghyd â'r erthyglau a'r teyrngedau, a chyfweliad Steffan gyda Beti George ar BBC Radio Cymru yn ystod mis Rhagfyr 2018, ychydig wythnosau'n unig cyn ei farwolaeth yn unig, ceir llythyron, lluniau a thoriadau mwy personol sy'n cofio'r gwleidydd, y dyn, y mab, y gŵr a'r tad a'r cyfaill triw. Yn eu plith ceir teyrngedau twymgalon gan Carwyn Jones, Jonathan Edwards a Jocelyn Davies ynghyd a cherddi hyfryd o waith neb llai na'r digymar Jim Parc Nest.

Yn ei ragair cymen a phwrpasol i'r gyfrol hon a gyhoeddir yma yn y ddwy iaith, cofia Dafydd Wigley mewn cyfraniad sydd yn sefydlu'r donfedd ar gyfer gweddill y gyfrol: 'Mae rhai pobl yn creu argraff o'r eiliad cyntaf; a'r cyfarfyddiad hwnnw yn sefyll yn y cof trwy'r blynyddoedd. Roedd y tro cyntaf i mi gyfarfod Gwynfor Evans a Dr Phil Williams yn rhai felly; a gwefr arbennig yr eiliad yn aros hyd heddiw. Mae'r diweddar, annwyl, Steffan Lewis yn un o'r nifer bychan, arbennig hwn. Ac anhygoel hynny – o gofio mai cwta ddeng mlwydd oed oedd Steff pan gyfarfûm ag ef am y tro cyntaf, yn Nhŷ'r Cyffredin'.

Pleser pellach yn syllu ar y llu o ffotograffau lliw hyfryd a gynhwysir o fewn y llyfr, ac unwaith yn rhagor mae'n ddyletswydd arnom i longyfarch staff ymroddgar Gwasg y Lolfa, Talybont, am gynhyrchu cyfrol mor hardd ei diwyg sydd yn hyfryd ei thrin a'i thrafod. A rhaid llongyfarch pawb ar ymddangosiad prydlon y llyfr hwn – o fewn blwyddyn ers marwolaeth greulon eithriadol Steffan.

A hyfryd yw darllen y bydd canran o freindal gwerthiant *Gwladgarwr Gwent: Cofio Steffan Lewis* yn cael ei roi i Ysbyty Felindre a fu'n gofalu am Steffan yn ystod ei salwch blin.

# COLOFN Y BEIRDD

## *Coronofeirws*

*Y gelyn anweledig*
*Sy'n llorio'r byd yn llwyr.*
*Yn sugno o'r ysgyfaint*
*Pob anadl fu mor rhwydd.*
*Drwy'r byd sydd lawn o bryder*
*Gwneir ymchwil am yr ateb.*
*O Dduw, rho i'r gwyddonwyr*
*Y gallu i ddarganfod*
*Y ffisig ag all goncro*
*Effaith heintus y Corona!*

*Anne M. Jones,*
*Allerton, Lerpwl*

## *Anne M. Jones yn atgoffa ni am ymweliad pobl rhaglen deledu 'Cynefin'*

***Diolch i Dr. John Williams***

*Cofiaf y rhaglen "Cynefin",*
*Ein meddyg yn ddewr ar yr afon.*
*Gwych ydoedd ei gyfraniad*
*Byth gofiadwy ei gap coch!*

## *Profiad 'Cantorion Bethel' a gafodd ei hanghofio ar ôl yr holl ymdrech*

*Daeth Ebost o Brifddinas Cymru*
*I ni sy'n byw ar y Glannau.*
*Gwahoddiad roddwyd i Gantorion Bethel*
*I ganu ar y rhaglen "Cynefin".*
*Mawr y cynnwrf a'r drafodaeth –*
*Trin y gwallt, a dewis gwisgoedd.*
*"Ond, mwy pwysig," meddai Ifor –*
*Ein rhyfeddol, wych arweinydd,*
*"Dewch yn gynnar, rhaid cyd-dynnu,*
*Pawb i edrych ar i fyny;*
*Gwenu'n braf a pheidio oedi,*
*Dim ymguddio yn y copi!*
*Dilyn Margaret wrth yr organ,*
*Peidio llusgo na gorfloeddian!"*

———

*Misoedd wedyn daeth y noson*
*Pawb yn disgwyl, braidd yn ofon!*
*Rhaglen hynod, yn llawn hanesion*
*Am a fu mwn hen adfeilion.*
*Ond pa le, pa le yr aethom?*
*Dim un nodyn glywyd ganddom!*

Cofleidio Cymru

# LLYN TEGID

*Yn ôl traddodiad, mae hen dref Y Bala yn gorwedd o dan Llyn Tegid, ac fe ddywedir y bydd y llyn un diwrnod yn llyncu'r Bala sydd yno heddiw hefyd. Heb y llyn byddai'r Bala yn llwm iawn, gan ei fod yn atyniad i gannoedd o bobl bob penwythnos, y mwyafrif llethol yn tyrru yno dros Glawdd Offa. Nid y dyddiau hyn, mae'n wir, a ninnau yn dioddef Covid-19.*

*Mae'r dref yn gyrchfan i Gymry Penllyn ac i raddau llai, Edeyrnion, a chawn ddarn go helaeth o hanes y Cymry yn Stryd Fawr Y Bala, a'r strydoedd o amgylch – o gofgolofn y gwleidydd Tom Ellis, a gollwyd yn ŵr cymharol ieuanc, i'r lechen sy'n cofio'r pregethwr dall, John Puleston Jones (1862-1925), a fagwyd yn Y Bala. Yno hefyd y collodd ei olwg pan oedd yn ddeunaw mis oed. Un o anwyliaid y genedl, ac felly hefyd Thomas Charles, sydd a'i gofgolofn y tu allan i Gapel Tegid y Presbyteriaid.*

*Mae'r coleg hardd a gysylltir â Lewis Edwards yn Oes Fictoria yn sefyll ar y ffordd i Tryweryn, ond bellach canolfan ieuenctid ar gyfer enwad y Presbyteriaid ydyw. Daw pobl ieuanc o bob rhan o Gymru yno a chânt hwythau eu denu i Lyn Tegid.*

*Faint ohonynt tybed a glywodd am Charles y telynor a roddodd ei hun i'r Diafol trwy roi bara'r Cymun i'r cŵn? Boddodd un noson ar ei ffordd adref o wledd yn Fach Ddeiliog (gwesty erbyn hyn) a gwelid cwmwl o fwg uwchben y fan y diflannodd am hydoedd.*



*Maes Eisteddfod Genedlaethol 2009*



*Lle poblogaidd i hwylio ac ymlacio*



*Llyn Tegid o lethrau Moel Emoel gyda Aran Benllyn a'r Fawddwy yn y pellter*

Lluniau: Aeron Jones